# Polisi Cadwyni Cyflenwi Moesegol

**Sefydlwyd:** **Medi 2020**
**Diwygiad Diwethaf:** **Y Pwyllgor Cynaliadwyedd Medi 2020**

**PRIFYSGOL METROPOLITAN CAERDYDD**
**POLISI CADWYNI CYFLENWI MOESEGOL**

CYFLWYNIAD

Mae gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd gyfrifoldeb i reoli ei hadnoddau mewn modd mwy cynaliadwy. Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod ganddi rwymedigaeth i sicrhau cynaliadwyedd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Wrth sicrhau gwerth am arian bydd yr adran Caffaeliad yn ceisio ysgogi'r cyfrifoldeb hwn i sicrhau bod y sefydliadau hynny yn ein cadwyni cyflenwi allanol a'n hisgontractwyr yn cydnabod, yn mabwysiadu ac yn cymhwyso arferion busnes cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol cyfrifol priodol yn ei weithrediadau.

Mae'r arferion priodol hyn yn cynnwys:

1. gwrthod ymwneud â llygredigaeth, ecsploetiaeth, gwahaniaethu, caethwasanaeth neu lafur gorfodol
2. sicrhau arferion taliadau teg
3. hawliau ac amodau cyflogaeth briodol
4. amodau gwaith diogel
5. annog cynhwysiant ac amrywiaeth
6. lleihau gwastraff, lleihau'r defnydd o ynni, allyriadau carbon a hyrwyddo cynlluniau ailddefnyddio ac ailgylchu
7. sicrhau triniaeth gyfartal

Rydym yn cydnabod bod ein cyflenwyr yn gweithredu mewn ystod eang o ddiwydiannau, amgylcheddau a diwylliannau, ac y byddwn yn dehongli cyflenwad moesegol mewn gwahanol ffyrdd.

Credwn mewn cefnogi'r egwyddorion sylfaenol y mae sefydliadau a safonau megis 'Mentrau Safonau Canmlwyddiant' y Sefydliad Llafur Rhyngwladol, 'Global Compact' y Cenhedloedd Unedig neu God Sylfaen y Fenter Masnachu Foesegol yn eu hyrwyddo.

Mae ein hamcanion polisi yn canolbwyntio ar hyrwyddo'r safonau a'r arferion hyn yng nghyd-destun mynd i'r afael â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2015[1] a Datganiad Polisi Caffael Cymru[2] sy'n diffinio gwerth am arian

"fel y cyfuniad gorau posibl o gostau gydol oes o ran nid yn unig cynhyrchu arbedion effeithlonrwydd a chanlyniadau o ansawdd da i'r sefydliad, ond hefyd bod o fudd i gymdeithas, yr economi, a'r amgylchedd, nawr ac yn y dyfodol"

AMCANION POLISI MOESEGOL

Mae'r polisi hwn yn ceisio mynd i'r afael â'r amcanion hyn drwy sicrhau ein bod yn cyflawni'r ymrwymiadau o dan Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015[3]; Deddf Cydraddoldebau 2010;[4] a Chyflogaeth Foesegol Llywodraeth Cymru mewn Cadwyni Cyflenwi: Cod Ymarfer[5] wrth gefnogi ein Strategaeth Prifysgol Iach[6] i gyfrannu at gymdeithas decach.

---

[1] https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-06/easy-read-a-guide-to-the-wellbeing-of-future-generations-act.pdf

[2] https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-09/wales-procurement-policy-statement.pdf

[3] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2015/30/contents/enacted

[4] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/contents

Nod y Cod Ymarfer yw sicrhau bod gweithwyr mewn cadwyni cyflenwi sector cyhoeddus yn cael eu cyflogi'n foesegol. Mae'n cyfeirio at gaethwasiaeth fodern a chamdriniaethau hawliau dynol, cosbrestru, hunangyflogaeth ffug, defnydd annheg o gynlluniau ymbarél a chontractau dim oriau a thalu'r Cyflog Byw.

Wrth gyflawni'r amcanion hyn bydd yr adran Caffaeliad yn:

Ymchwilio i bob haen yn ei chadwyni cyflenwi ym mhob prif nwydd hyd eithaf ei allu a defnyddio'r wybodaeth hon am y farchnad i nodi cyfleoedd ar gyfer datblygiad moesegol a dileu arferion annheg.

Annog ein holl gyflenwyr a'u hisgontractwyr i dalu'r Cyflog Byw. Mae'r Brifysgol wedi dod yn gyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol Achrededig yn ddiweddar a byddwn yn ceisio sicrhau bod ein cyflenwyr, lle y bo'n bosibl ac yn gyfreithlon, wedi ymrwymo i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol.

Defnyddio cwestiwn Arferion Gwaith Teg Llywodraeth Cymru[7] fel safon yn ei holl weithgareddau tendro i geisio ysgogi ei bwysigrwydd.

Annog ein holl gyflenwyr i ymrwymo'n wirfoddol i God Ymarfer Llywodraeth Cymru.

Byddwn yn ymchwilio i unrhyw gais gan gyflenwyr sy'n ymddangos yn anarferol o isel i sicrhau bod y cyflenwr yn cyflawni ei rwymedigaethau ar gyfer cyfreithiau amgylcheddol, cymdeithasol a llafur, er enghraifft drwy ddefnyddio hunangyflogaeth ffug.

Sicrhau bod ein holl Delerau ac Amodau contractau yn parhau i fynd i'r afael â'n hymrwymiad moesegol ac yn ein galluogi i derfynu unrhyw gontract ar gyfer gweithredu hawliau dynol neu ymchwiliad ffurfiol gyda rhwymedigaethau statudol sy'n ymwneud â hawliau cyflogaeth neu droseddau o dan y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern.

Datblygu cyfres newydd o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol i fynd i'r afael â'n hymrwymiadau moesegol fel rhan o'r broses rheoli contractau. Caiff hwn ei gyflwyno i'n partneriaid gwasanaeth allweddol a darperir hyfforddiant i'n tîm Ystadau, Cyfleusterau a Gwasanaethau Masnachol.

Parhau i sicrhau bod ein holl gontractau cyflenwi yn parhau i amlygu pwysigrwydd cynhwysiant, amrywiaeth a pharch at y nodweddion gwarchodedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, h.y. oedran, anabledd, ailbennu rhyw, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

Drwy fod yn aelod o Gonsortiwm Prynu Addysg Uwch Cymru[8] ('HEPCW'), cydweithio i fynd i'r afael â chaffael moesegol a bydd yn fuan gydag aelodau eraill o gonsortia yn treialu'r Meddalwedd Ymgysylltu â Chyflenwyr NetPositives[9]

Darparu hyfforddiant ar gyflogaeth foesegol i staff y Brifysgol, drwy ymsefydlu corfforaethol a hyrwyddo fideos hyfforddi'r Cod Ymarfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwynau Cyflenwi[10]

Parhau i ddarparu mecanwaith lle gall ein cyflenwyr roi gwybod am unrhyw beth y credant y gallai fod yn annheg neu amhriodol o ran cyflogaeth neu arferion gwaith mewn unrhyw agwedd ar gadwyni cyflenwi'r Brifysgol. Bydd dolen i bolisi Chwythu'r Chwiban y Brifysgol[11] bellach yn cael ei nodi yn ein holl ddogfennau tendro.

Parhau i gynnal amserlen talu deg i sicrhau bod ein holl gyflenwyr yn cael eu talu o fewn 30 diwrnod i dderbyn anfoneb ddilys.

Sicrhau bod unrhyw gontractau a osodir i asiantaethau recriwtio yn sicrhau bod unrhyw berson a gyflogir yn y Brifysgol yn cael ei gyflogi ar yr un radd a chyflogai Prifysgol yn yr un rôl.

ACHREDIAD MASNACH DEG

Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod pennu enwau brand fel meini prawf dethol neu ddyfarnu yn ei gweithgarwch tendro yn debygol o fod yn groes i'r rhwymedigaethau gwrth-gyfyngol a nodir yn Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015[12]. O ganlyniad, wrth hyrwyddo safonau penodol a gydnabyddir yn rhyngwladol, mae polisi Cadwynau Cyflenwi Moesegol y Brifysgol yn fwriadol yn osgoi defnyddio unrhyw frand masnachol neu enwau masnach.

O ganlyniad, er bod y Brifysgol wedi cyflawni a chynnal achrediad 'Prifysgol Masnach Deg', rheolir hyn gan bolisi Masnach Deg ar wahân sy'n cwmpasu'r gofyniad achredu hwn ac sy'n atodol i'r polisi Cadwynau Cyflenwi Moesegol hwn.

***Mae'r ddogfen hon wedi'i chreu, ei hadolygu a'i chymeradwyo gan y Pwyllgor Cynaliadwyedd Ebrill 2020, sy'n cynnwys Partneriaethau Dirprwy Is-Ganghellor ac Ymgysylltu Allanol, Rheolwr Ymgysylltu â Chynaliadwyedd, Perchnogion Agweddau EMS, Undeb y Myfyrwyr – Llywydd yr SU a Swyddog Amgylcheddol Rhan-amser yr SU, Undebau Llafur a chynrychiolwyr Academaidd Ysgolion.***
***Cyflwynwyd y drafft i ymgynghoriadau'r Grwpiau Ffocws ar staff a gwirfoddolwyr myfyrwyr, wedi'i ddiweddaru a'i gymeradwyo ar y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar 3 Medi 2020.***
Os oes gennych unrhyw sylwadau neu os hoffech wirfoddoli ar gyfer adolygu'r Strategaeth / Polisi Cynaliadwyedd, cysylltwch â Sustainability@cardiffmet.ac.uk

Fersiwn 5 Chwefror 2020

[11] https://www.cardiffmet.ac.uk/about/structureandgovernance/Pages/Whistleblowing.aspx
[12] http://www.legislation.gov.uk/uksi/2015/102/pdfs/uksi_20150102_en.pdf